

# SL(5)744 - Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n codi o gychwyn, ar 1 Ebrill 2021, y darpariaethau ym Mhennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021"), sy'n ymwneud â pherfformiad prif gynghorau a'u llywodraethu (a ddiffinnir yn adran 171 o Ddeddf 2021 fel cyngor ar gyfer sir yng Nghymru neu gyngor ar gyfer bwrdeistref sirol yng Nghymru), ac o ddatgymhwyso Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ("Mesur 2009 ") mewn perthynas â phrif gynghorau ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn hefyd yn hwyluso diddymu Mesur 2009 yn y dyfodol, y darperir ar ei gyfer gan adran 170 o Ddeddf 2021.

O dan Fesur 2009, cyfeiriwyd at brif gynghorau (y cyfeirir atynt ym Mesur 2009 fel cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol), awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub fel "awdurdodau gwella Cymreig". Defnyddiwyd y term hwnnw wedi hynny mewn peth deddfwriaeth fel ffordd o gyfeirio at yr awdurdodau hyn.

Mae Mesur 2009 yn cael ei ddatgymhwyso i brif gynghorau gan adran 113 ac i awdurdodau Parciau Cenedlaethol gan adran 169 o Ddeddf 2021, a ddygir i rym, fel y nota'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau, ar 1 Ebrill 2021 gan Orchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Arbedion) 2021.

Mae Pennod 1 o Ran 6 o Ddeddf 2021 yn sefydlu cyfundrefn newydd ar gyfer asesu perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau yng Nghymru, gan ddisodli'r drefn a oedd yn gymwys i'r cynghorau hynny o dan Ran 1 o Fesur 2009. Nid yw'r drefn ym Mhennod 1 o Ran 6 o Ddeddf 2021 yn gymwys i awdurdodau tân ac achub nac awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Mae'r diwygiadau a gynhwysir yn y rheoliadau hyn yn angenrheidiol o ganlyniad i Bennod 1 o Ran 6 ac adran 169 o Ddeddf 2021, ac er mwyn rhoi effaith lawn iddynt. Mae angen y diwygiadau hyn hefyd er mwyn paratoi'r ffordd ar gyfer diddymu Mesur 2009 fel y darperir ar ei gyfer yn adran 170 o Ddeddf 2021.

Mae'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn:

- a) diwygio deddfiadau sy'n dibynnu ar weithredu Mesur 2009;
- b) diwygio deddfiadau i ddileu cyfeiriadau at Ran 1 o Fesur 2009 ac, mewn rhai achosion, eu disodli gan gyfeirio at Ran 6 o Ddeddf 2021;



- c) diwygio deddfiadau i ddileu cyfeiriad at "awdurdod gwella Cymreig" ac, mewn rhai achosion, rhoi cyfeiriad at brif gynghorau a/neu awdurdodau tân ac achub a/neu awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn lle'r cyfeiriadau hynny.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheoliad 4(3) yn mewnosod geiriau yn adran 33(3)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 a fydd, ymhlith pethau eraill, yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi grantiau i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwariant yr aed iddo neu yr eir iddo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Bennod 3 o Ran 6 o Ddeddf 2021. Nid yw Pennod 3 o Ran 6 o Ddeddf 2021 mewn grym eto. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn cyfeirio at Bennod 1 o Ran 6 yn unig yn cael ei dwyn i rym ar 1 Ebrill 2021 gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Arbed) 2021 ("Gorchymyn 2021"). Er mwyn cadarnhau effaith rheoliad 4(3), gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau pryd a sut y dygir Pennod 3 o Ran 6 o Ddeddf 2021 i rym.

### **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn cyfeirio at Orchymyn 2021 sydd i ddwyn i rym Pennod 1 o Ran 6 o Ddeddf 2021 (perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau) ac adran 169 o Ddeddf 2021 (gan ddatgymhwyso Mesur 2009 i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol). Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw Gorchymyn 2021 wedi'i wneud ar adeg ysgrifennu hwn ac mae'n gwahodd Llywodraeth Cymru i gadarnhau pryd y disgwylir i hyn ddigwydd.



## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb oddi wrth Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**23 Chwefror 2021**



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

Welsh Parliament

**Legislation, Justice and Constitution Committee**